**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 12-02 (Cofnodion drafft)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **26 Mehefin 2002**
**Amser** **1.30 – 4.30pm**
**Lleoliad** **Ty Principality, Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne.**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| | |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd |
| John Clarke | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Sheila Maxwell | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Howarth | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Clive Rees | ISG |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Gareth Hall | Awdurdod Datblygu Cymru |

Evelyn Thurlby — Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Dr Rhodri Griffiths — Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes — Clerc
Sian Wilkins — Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach ac a benodwyd yn Gadeirydd SBARD yn ddiweddar; a chan Phil Williams sydd yn ymwneud â chais Amcan 1 ar hyn o bryd. Datganodd Andrew Davies ei fod yn aelod o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth David Davies a Mick Bates. Dirprwyodd Eleanor Burnham dros Mick Bates.
3. Dymunai'r Cadeirydd gofnodi diolch y Pwyllgor i Mike German am ei wasanaeth gwerthfawr i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r Pwyllgor. Diolchodd hefyd i Ron Davies am gadeirio'r cyfarfod blaenorol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gan roi diweddariad byr ar lafar, ac mae copi o hwn wedi'i gysylltu wrth ei adroddiad.
2. Cyfeiriwyd at adroddiad o eiddo Prifysgol Bangor gan yr Athro Dylan Jones-Evans a oedd yn nodi gostyngiad yn lefel y buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygiad yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Dywedodd yr Aelodau fod absenoldeb credydau treth arbennig ar gyfer Ymchwil a Datblygiad yng Nghymru yn wendid mawr a gofynasant a ellid symud arian Amcan 1 er mwyn darparu nawdd pellach ar gyfer y sector hwn a oedd yn hanfodol i lwyddiant yr economi Gymreig. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi darllen yr adroddiad eto ac y byddai yn ymateb unwaith y byddai wedi cael cyfle i'w ystyried. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]** Ychwanegodd ei fod yn ystyried cynnydd mewn gweithgarwch Ymchwil a Datblygiad yng Nghymru yn flaenoriaeth o bwys ac iddo gomisiynu yn ddiweddar archwiliad o gwmnïau yng Nghymru a allai gyflawni gwaith Ymchwil a Datblygiad ar hyn o bryd, gyda golwg ar fanteisio i'r eithaf ar nawdd Amcan 1. Dywedodd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i bledio achos credydau Ymchwil a Datblygiad rhanbarthol gyda'r Trysorlys. Cytunodd y Cadeirydd i ddod yn ôl at y mater o gefnogaeth i Ymchwil a Datblygiad yn nhymor yr hydref a chytunodd ag awgrym aelod y dylid gwahodd yr Athro Dylan Jones-Evans i annerch y Pwyllgor. **[Cam Gweithredu: Clerc/ Cadeirydd]**

3. Amlinellodd aelod y problemau yr oedd y diwydiant twristiaeth yn eu hwynebu o ran dod o hyd i weithwyr medrus a gofynnodd pa gamau oedd yn cael eu cymryd er mwyn annog y rhai nad oeddent yn weithgar yn economaidd yn ôl i addysg bellach er mwyn ennill y sgiliau angenrheidiol. Dywedodd y Gweinidog fod y chwaraewyr allweddol yn y diwydiant yn cydnabod yr angen i godi statws y sector a bod angen gweithredu mewn modd strategol. Ychwanegodd fod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymoedd De Cymru er mwyn hybu Treftadaeth Ddiwydiannol ac er mwyn annog y rhai nad oeddent yn weithgar yn economaidd i ddod i mewn i'r diwydiant.
4. Ar fater Dewhirst cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd yr ymdrechion i arbed y swyddi wedi bod yn llwyddiannus a bod Tîm Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r gweithwyr yr oedd hyn yn effeithio arnynt er mwyn eu helpu i ddod o hyd i swyddi newydd. Ychwanegodd iddo ofyn i swyddogion edrych ar y goblygiadau ar gyfer gweithrediadau Dewhirst yn Aberteifi ac yn Abergwaun a'i fod yn fodlon iawn trafod y mater ymhellach gydag aelodau unigol os oeddent yn dymuno hynny.
5. Gofynnodd aelod, o ystyried y twf presennol yn y sector adwerthu, a oedd unrhyw ymchwil wedi'i wneud er mwyn mesur effaith datblygiadau archfarchnadoedd newydd ar fusnesau bach yn lleol. Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw ffigyrau ar gael ond bod hyn yn ystyriaeth yn y broses gynllunio. Yr oeddent yn credu bod cynnydd net mewn swyddi fel arfer.
6. Mynegwyd pryder bod rhai Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yn credu na fuasent yn gymwys ar gyfer cymorth Grant Buddsoddi'r Cynulliad (GBC) pe bai'r swyddi dan sylw oddi ar y safle. Cadarnhaodd y swyddogion ei bod yn dderbyniol i swyddi fod ag elfen oddi ar y safle, cyhyd â'u bod wedi'u lleoli yng Nghymru a bod grantiau GBC yn dilyn y meini prawf presennol ar gyfer Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn hynny o beth. Achubodd y Gweinidog ar y cyfle i longyfarch yr aelodau staff a oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r broses ymgeisio ar gyfer grantiau GBC.

**Eitem 3: Adroddiad Chwarterol ar y Cronfeydd Strwythurol**

1. Rhoddwyd adroddiadau llafar ar gyfarfodydd diweddaraf Bwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) gan Christine Chapman (Amcan 1), John Griffiths (Amcan 2) a David Howarth (Amcan 3). Mae copïau o'r adroddiadau hyn wedi'u cysylltu wrth y papur ar y Cronfeydd Strwythurol.
2. Cafwyd trafodaeth faith wedyn ar berygl di-ymrwymiad i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Yr oedd yr Aelodau o'r farn bod patrymau presennol ymrwymiadau a gwariant yn nodi perygl difrifol y byddai arian yn cael ei golli i Gymru ac awgrymasant fod achos aruthrol erbyn hyn dros bolisi o or-ymrwymiad gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn addo gwarantu unrhyw or-ymrwymiad, pe bai hynny'n digwydd, ar ddiwedd y rhaglen. Dywedodd swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru tra nad oeddent yn gallu gwarantu unrhyw beth yr oeddent o'r farn y gallent sicrhau'r lefel gwariant angenrheidiol er mwyn osgoi gor-ymrwymiad

ar ddiwedd 2002. Yr oedd yr aelodau hefyd o'r farn y dylid ystyried trosglwyddo o fewn rhaglenni a mesurau ond dywedodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mai'r amser i ystyried hynny fyddai ar adeg yr arfarniad canol-cyfnod.

3. Nodwyd i'r Pwyllgor Materion Cymreig wneud argymhelliad yn ei adroddiad diweddar i symleiddio'r trefniadau arian cyfatebol. Dywedodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y gallu i ddod o hyd i arian cyfatebol yn effeithio ar lefelau'r ceisiadau. Yr oeddent yn disgwyl cwblhau, cyn pen ychydig ddyddiau, ymarfer i uwchraddio gwybodaeth ar eu gwefan am ffynonellau arian cyfatebol. Cytunasant fod Cronfeydd Allweddol yn ffordd ddefnyddiol ymlaen ac yr oedd mwy o'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
4. Nodwyd mai EAGGF oedd yn dwyn y perygl mwyaf o ddi-ymrwymiad ond cydnabuwyd na ellid bod wedi rhagweld yr effaith yr oedd clwy'r traed a'r genau wedi'i chael ar y rhaglen.
5. Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd lefelau staffio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cynnwys y niferoedd llawn a holasant yn benodol ynghylch y diffyg hwyluswyr sector preifat, a oedd yn effeithio ar lefel y bidiau o'r sector preifat. Dywedodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru nad oedd lefelau staffio wedi cael effaith sylweddol ar y gwaith o brosesu ceisiadau. Cyfrifoldeb yr Uned Partneriaid Cymdeithasol, nad oedd wedi cyflwyno cais i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru eto ar gyfer y nawdd cymorth technegol a oedd wedi'i glustnodi i'r diben hwn, oedd penodi Hwyluswyr Sector Preifat. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at y defnydd a wneir yng Nghernyw o swyddogion prosiectau er mwyn ymweld â phrosiectau yn y maes. Dywedodd y swyddogion nad oeddent wedi'u darbwyllo y byddai ymweld â phrosiect unwaith yn ystod ei oes yn golygu gwerth am arian a'u bod yn ymweld â phob prosiect yn chwarterol er mwyn gweld sut yr oeddent yn mynd rhagddynt. Dealltwriaeth yr Aelodau oedd bod ymweliadau'r swyddogion prosiectau yng Nghernyw yn ychwanegol at alwadau ffôn chwarterol a bu iddynt bwyso ar y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn.
6. Yr oedd yr Aelodau yn pryderu hefyd i'r cyfarfod Partneriaeth Asedau Busnes ar gyfer mis Gorffennaf gael ei ddiddymu oherwydd diffyg prosiectau i'w cymeradwyo. Dywedodd y swyddogion fod nifer o brosiectau yn yr arfaeth ond eu bod o'r farn y byddai'n well i'r rhain gael eu trafod yng nghyfarfod mis Awst. Pe bai prosiectau yn cael eu brysio y canlyniad yn aml oedd bod gan y bartneriaeth gwestiynau nad oeddent wedi'u hateb, gan arwain at oedi pellach.
7. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi edrych yn fanwl ar y bid Amcan 1 gan Brifysgol Caerdydd a'u bod yn fodlon bod yr arian o fantais i Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint yn yr ardal Amcan 1.
8. Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd Christine Chapman, Cadeirydd PMRh ar gyfer Amcan 1 y bu llawer o gynnydd yn y sector preifat a bod PMRh yn edrych ar effaith y rhaglen. Cytunodd fod angen datblygu rôl fwy strategol.

**Eitem 4: Techniums – trafodaeth ar bolisi**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y drafodaeth gan amlinellu ei gysylltiad ef â'r prosiect Technium yn Abertawe ac yn tynnu sylw at y bartneriaeth a oedd yn bodoli rhwng Prifysgol Abertawe, Awdurdod Datblygu Cymru a'r sector preifat.
2. Amlinellodd Gareth Hall y blaenoriaethau strategol a oedd wedi arwain at ddatblygu'r cysyniad Technium a dywedodd eu bod, trwy Dechnium Abertawe, wedi nodi'r meini prawf allweddol ar gyfer datblygu Techniums i'r dyfodol, y manylir ar y rhain yn y papur. Dywedodd ei bod yn bwysig iddynt weithio gyda'r sector preifat mewn sectorau allweddol a oedd yn cael eu harwain gan ddiwydiant. Mantais annisgwyl y prosiect fu 'mewn-ddeilliannau' o gwmnïau rhyngwladol mawrion a oedd yn chwilio am gartref ar gyfer eu swyddogaethau Ymchwil a Datblygiad. Yr oedd gan yr holl gysyniad Technium effaith luosogi dda. Yr oedd Awdurdod Datblygu Cymru erbyn hyn yn rhoi'r rhaglen Technium ar waith ar draws Cymru ac ar draws amrediad o sectorau.
3. Croesawodd yr Aelodau lwyddiant Technium Abertawe, ond dywedasant i hyn gael ei seilio ar glystyrau yn adlewyrchu 'cryfderau' lleol ac nad oedd yn golygu o reidrwydd y byddai'r cysyniad yn gweithio ledled Cymru. Dywedodd Gareth Hall i'r clystyrau ddatblygu o siarad â fforymau economaidd a sectorol ac â Phrifysgolion ac y gellid ailadrodd y dull gweithredu hwn**.** Cydnabu hefyd fod Techniums mewn lle delfrydol i fanteisio ar gydgyfeiriant sectorau.
4. Yr oedd panelau annibynnol yn bodoli er mwyn archwilio cynlluniau busnes ar gyfer pob Technium a busnesau llwyddiannus oedd y rheiny a allai ddangos y potensial i dyfu yn gyflym yn y tair blynedd cyntaf. Nodwyd hefyd bod rhaid dal at y meini prawf allweddol yn gyfan gwbl, er mwyn osgoi gwanhau'r cysyniad Technium.
5. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y mater o arian cyfatebol penodol er mwyn darparu cymhellion i ddiwydiant mewn Techniums wedi'i ystyried fel rhan o'r cylch presennol o gynllunio'r gyllideb.
6. Pwysleisiodd Gareth Hall yr angen i Dechniums fod â chysylltiadau ag arbenigedd heb ei ail mewn Prifysgolion a dywedodd y dylid cael ei gydnabod na fyddai pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru â'r arbenigedd i gefnogi Technium. Cadarnhaodd eu bod ar hyn o bryd yn siarad â Phrifysgol Morgannwg a'u bod yn gobeithio y gellid mynd â phrosiect yn ei flaen yng Nghymoedd De Cymru a fyddai â'r fantais ychwanegol o wella cysylltedd band llydan yn yr ardal honno.

**Eitem 5: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

1. Amlinellodd Evelyn Thurlby y cynnydd a wnaed hyd yma yn yr Ardd gan nodi eu gweithgareddau craidd o wyddoniaeth, addysg a thwristiaeth. Dywedodd mai twristiaeth oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau llwyddiant yr Ardd gyda'r arian a dderbynnir oddi wrth ymwelwyr yn ffurfio cyfran fwyaf eu hincwm. Yr oedd eu lefel gwariant fesul ymwelydd yn fwy na lefel gwariant unrhyw brosiect arall o eiddo Comisiwn y Mileniwm. Nod y prosiect oedd creu cyrchfan i ymwelwyr o'r radd flaenaf, a fyddai'n cael ei gydnabod drwy'r byd. Byddai effaith arosiadau dros nos

gan ymwelwyr yn dwyn manteision economaidd gwirioneddol i'r ardal. Yr oedd yn falch ei bod yn ymddangos bod gwerth twristiaeth ar ddatblygu economaidd yn cael ei gydnabod o'r diwedd.

2. Esboniodd Rhodri Griffiths fod y ganolfan wyddoniaeth yn yr Ardd yn gartref i Ymchwil a Datblygiad gwyddoniaeth yr Ardd ei hun a'r prosiect Bio-Dechnium newydd. Dywedodd nad oedd y sector yn cael ei gynrychioli digon yng Nghymru a bod hyn yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddi pellach. Dywedodd eu bod yn ceisio peidio â chanolbwyntio ar farchnadoedd arbenigol ond, yn hytrach, annog cymaint o gwmnïau â phosibl o'r sector biowyddoniaeth drwyddo draw.
3. Cyfeiriodd yr Aelodau at lwyddiant Prosiect Eden yng Nghernyw ac at yr angen am westy mawr yn agos at yr ardd er mwyn derbyn partïon coetsis. Dywedodd Evelyn Thurlby fod cymariaethau yn anodd gan eu bod yn fathau hollol wahanol o brosiectau. Yr oeddent wedi ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb ar gyfer gwesty gwyrdd a oedd wedi profi na fyddai'n ymarferol a'u bod yn gobeithio edrych ar opsiynau eraill. Dywedodd y Gweinidog iddo godi'r mater hwn o'r blaen gyda chadwyni gwestai a bod angen i achos busnes cadarn fod mewn bodolaeth gyda niferoedd yr ymwelwyr yn cyfiawnhau buddsoddi mewn gwesty mawr.
4. Gofynnodd yr Aelodau a oedd angen rhagor o nawdd yn yr Ardd. Dywedodd Rhodri Griffiths fod angen cyffredinol yng Nghymru ac yn y DU fel ei gilydd am ragor o nawdd ar gyfer gwyddoniaeth yn gyffredinol ac y byddai angen nawdd pellach er mwyn creu sylfaen wyddonol i'r ardd.
5. Drwy'r Ganolfan Wyddoniaeth yr oedd yr Ardd yn ceisio annog pobl a oedd wedi astudio yng Nghymru i ddod yn ôl a gweithio yma, yn ogystal â'r myfyrwyr a anwyd yng Nghymru a oedd wedi symud ymaith naill ai i astudio neu i weithio. Yr oeddent yn defnyddio Cymdeithasau Cynfyfyrwyr Prifysgolion Cymru er mwyn denu pobl.
6. Cydnabyddent y gallent wneud mwy i ddenu myfyrwyr i'r Ardd a thra eu bod yn derbyn myfyrwyr ar wahanol leoliadau nid oeddent yn derbyn unrhyw un a oedd yn astudio twristiaeth ac y byddai angen iddynt siarad â sefydliadau Addysg Uwch yn hyn o beth. Yr oeddent wedi derbyn mwy na 60 o fyfyrwyr gwyddoniaeth ôl-raddedig hyd yma ac yr oeddent yn cael eu cydnabod fel un o'r sefydliadau gorau yn y byd ym maes garddwriaeth. Yr oedd yr Ardd hefyd yn rhedeg rhaglen i athrawon er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Ardd fel adnodd.
7. Dywedodd aelod fod nawdd llywodraeth y DU ar gyfer Gerddi Kew yn wariant 'anghymaradwy' ac felly y gellid rhoi dadl dros i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru dderbyn swm cyfartal â 6% o gyfanswm nawdd Gerddi Kew. Gofynnodd i'r Gweinidog ystyried codi'r mater o addasiad canlyniadol i'r Ardd gyda'r Gweinidog dros Gyllid. Cytunodd y Gweinidog i wneud hyn. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion 12 Mehefin yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**